

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Reckless AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Mawrth 2017

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr ar 31 Ionawr ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i fonitro effaith fy mhortffolio ar ansawdd yr aer yng Nghymru.

Mae eich llythyr yn cyfeirio'n benodol at y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Wrth benderfynu ar ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf pedair blynedd, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr, roedd y broses asesu yn cynnwys ystyried goblygiadau newid yn yr hinsawdd ac effaith carbon dros oes y rhaglenni arfaethedig.

Mae ystyriaethau amgylcheddol yn rhan o'n trefniadau cynllunio cyfalaf ac yn rhan ganolog o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, sydd yn ei dro yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Enghraifft o'n hymrwymiad yw'r buddsoddiad cyfalaf o dros £145 miliwn yng Nghyllideb 2017-18 i ddatblygu a rhoi ar waith bolisiau sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni a Thwf Gwyrdd, sydd i gyd yn cyfrannu at ansawdd yr aer.

O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae fy rôl wrth roi'r Ddeddf ar waith yn rhoi rhagor o gyfleoedd i fonitro ansawdd yr aer. Cyhoeddwyd y 46 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mawrth 2016. Cytunwyd ar ddangosydd ar gyfer ansawdd yr aer fel un o'r dangosyddion hynny a fydd yn y dyfodol yn mesur y cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r ddogfen dechnegol ar y dangosyddion cenedlaethol ar gael yma:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=cy>

ac mae'n nodi'r union ddangosydd sef:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dangosydd 4: Lefelau Cyfartalog blynyddol cysylltiad â llygredd nitrogen deuocsid (NO₂) wedi'u mesur mewn µg/m³

Mae'r ddogfen dechnegol hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau o ddata cyd-destunol er mwyn helpu â'r gwaith dadansoddi. Yn achos ansawdd yr aer mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/public-health-framework?skip=1&lang=cy>

- Gwefan ansawdd aer Cymru

http://www.welshairquality.co.uk/index.php?t=&n_action=&lg=w

Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig wrth wella ansawdd yr aer. Mae ganddynt ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i gynnal adolygiadau ac asesu ansawdd yr aer, a phan na chydymffurfir â'r amcanion cenedlaethol, rhaid datgan bod ardal yn 'ardal rheoli ansawdd yr aer' a rhoi ar waith gynllun gweithredu i reoli ansawdd yr aer yn lleol, er mwyn ceisio cyflawni'r amcanion hynny. Mae gan awdurdodau lleol hefyd rôl ehangach wrth ystyried effaith datblygiadau tir a chynlluniau trafnidiaeth ar ansawdd yr aer, ac wrth atal problemau newydd rhag datblygu, yn ogystal â rôl i roi hwb i'r agenda iechyd sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr aer.

Er mai ym mhorthfolios Ysgrifenyddion eraill y Cabinet y mae'r cyfrifoldeb dros y meysydd polisi hyn, rwyf wedi ymrwmo i drafod y materion hyn ag awdurdodau lleol pan fydd problemau'n dod i'r amlwg. Mae ansawdd yr aer yn un o'r pynciau a fydd yn cael eu trafod yn fy nghyfres nesaf o gyfarfodydd ag arweinwyr yr awdurdodau lleol.

Mae ffynonellau data am ansawdd yr aer hefyd wedi'u cynnwys yn y cyfresi data y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer asesu llesiant lleol, ac mae gofyn i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd roi sylw i'r dangosyddion cenedlaethol wrth asesu llesiant. Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae ansawdd yr aer yn cael ei ystyried yn benodol yn yr asesiadau sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori. Aeth nifer ati i ymgysylltu'n helaeth â chymunedau yr haf diwethaf er mwyn deall yn well y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac i geisio barn pobl am eu hardaloedd. Bydd yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Lleol benderfynu sut i flaenoriaethu, a hynny ar sail yr asesiadau. Gall hyn olygu y bydd rheoli ansawdd yr aer yn lleol yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu ar y cyd mewn rhai ardaloedd, er nad oes modd sicrhau hynny.

Mae caffael yn faes arall rwy'n gyfrifol amdano, ac yn faes sy'n rhan o fy mhorthfolio. Mae datganiad Polisi Caffael Cymru yn ceisio annog gweithredu'n gadarnhaol wrth gaffael drwy ddilyn egwyddorion pwysig a chymryd camau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae un o'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad Risg Cynaliadwyedd wrth gaffael. Mae'r Asesiad yn ddull y mae uned Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru wedi'i ddatblygu i geisio sicrhau bod ein prosesau caffael yn gwneud mwy dros yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas. Mae logisteg a thrafnidiaeth yn un maes o bwys, gyda'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn argymhell dulliau i roi sylw i'r maes hwn mewn ffordd gadarnhaol, gan leihau'r effaith ar ansawdd yr aer cymaint ag y bo modd.

Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru yn annog cydweithio wrth gaffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u hymgorffori yn ei holl waith.

Mae Categori Fflyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn gyfrifol am amrywiaeth eang o waith caffael sy'n ymwneud â fflyd ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u hymgorffori yn ei holl waith drwy'r amcanion strategol sy'n ceisio rhoi sylw i ansawdd yr aer, a cheir rhagor o wybodaeth am hyn isod.

- *Cymru Iachach* – lleihau'r allyriadau CO2 sy'n cael eu creu ym mhob un o'r is-gategoriâu Fflyd a Thrafnidiaeth drwy wella'r seilwaith trafndiaeth a hyrwyddo ailddefnyddio ac ailgylchu.
- *Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang* – sicrhau bod gweithwyr Fflyd wedi'u hyfforddi i hyrwyddo patrymau gyrru economaidd, gan leihau'r allyriadau CO2 sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd. Edrych ar y cyfleoedd i ailddefnyddio neu ailgylchu pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, h.y. teiars, hen gerbydau, darnau sbâr ac ati.

I roi'r camau hyn ar waith, mae tendr llogi cerbydau adran fflyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi cynnwys y gofynion canlynol yn y fanyleb:

- mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Chwsmeriaid wedi ymrwymo i gynaliadwyedd ac i leihau allyriadau, ac mae targed wedi'i osod o 130g/km o CO2 fel cyfartaledd wrth ddefnyddio ceir i deithwyr. Fodd bynnag, mae pob cyflenwr wedi'i annog i ddarparu ceir ym mhob dosbarth gydag uchafswm allyriadau o 100g/km o CO2.
- bydd y Cyflenwr yn rhoi gwybodaeth reolaidd ac yn cyfrifo'r allyriadau CO2 sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaethau, a hynny er mwyn helpu i leihau carbon.
- bydd y Cyflenwr yn gwneud popeth rhesymol o fewn ei allu i helpu'r Cleient a Chwsmeriaid i leihau'r allyriadau CO2 sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaethau drwy argymhell a darparu cerbydau sy'n llesol i'r amgylchedd pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl
- bydd y Cyflenwr yn helpu'r Cleient i ganfod Proffil Ôl-troed Carbon cerbydau llogi'r Cwsmeriaid, ac yn defnyddio hyn fel sail i fonitro'r defnydd o danwydd ac allyriadau. Bydd y Cyflenwr yn rhoi tabl misol i'r Cwsmer o ddarlleniadau allyriadau ecsôst a gafwyd naill ai wrth wneud gwaith cynnal a chadw ar y fflyd, yn ystod yr archwiliad cyn y prawf MOT blynyddol, neu yn ystod y prawf MOT blynyddol.
- Bydd Gwybodaeth Reoli hefyd yn cael ei chasglu ynghylch statws allyriadau CO2 y cerbyd a chyfanswm y CO2 ar gyfer y daith.

O ran cyllid Ewropeaidd, er nad yw hwnnw'n rhoi sylw uniongyrchol i liniaru effeithiau ansawdd aer gwael, rydym yn cefnogi gweithgarwch sy'n hwb i'r economi werdd a'r economi carbon isel, a hynny'n benodol drwy ein blaenoriaethau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni, ymchwil ac arloesi. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau fel y canlynol:

'Deep Green' yn Ynys Môn – mae £10.5 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi helpu'r cynllun arloesol hwn i ddylunio, cynhyrchu a phrofi dyfais cyflymder isel er mwyn creu trydan i filoedd o gartrefi drwy lanw a llif y môr.

Y Ganolfan Beirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol, sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Abertawe. Mae £15 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi helpu'r cynllun hwn a fydd yn rhoi sylw i her trydan a gwres carbon isel

drwy alluogi adeiladau i gynhyrchu, storio a rhyddhau eu hynni eu hunain – gan ddefnyddio ynni'r haul yn unig.

Drwy fuddsoddi o Gronfeydd Strwythurol, rydym hefyd yn sicrhau bod pob cynllun sy'n cael ei gefnogi yn rhoi sylw i gynaliadwyedd amgylcheddol. Felly, er enghraifft, rhaid i ddatblygiadau i'r seilwaith gydymffurfio â safonau BREAM ac rydym yn annog gwaith i ddatblygu cynlluniau a mentrau teithio cynaliadwy, pan fydd hynny'n addas.

Rwy'n falch fod y Pwyllgor yn dangos diddordeb mawr yn y mater pwysig hwn. Mae adroddiadau diweddar ynghylch ansawdd aer gwael yn ne-ddwyrain Lloegr yn dangos pa mor gyflym y gall y sefyllfa ddirywio a rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i atal sefyllfa debyg yng Nghymru. Byddaf yn parhau i ddefnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael imi i fonitro a lliniaru effeithiau unrhyw gamau a gymerir o fewn fy mhortffolio sy'n effeithio'n negyddol ar ansawdd yr aer. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldeb cyffredinol dros ansawdd yr aer yng Nghymru yn rhan o fy mhortffolio, ac felly dylid anfon unrhyw geisiadau am gyngor yn y dyfodol at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig.



Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government